# Ffynonellau Cyngor a Chymorth Cyfreithiol
# Tribiwnlys Cyflogaeth Cymru

*Er y defnyddir y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth i ddelio â phartïon heb gynrychiolaeth, mae llawer o achosion yn fwy cymhleth nag y maen nhw'n ymddangos. Bydd staff y tribiwnlys a'r Barnwyr yn gwneud popeth y gallant i sicrhau bod eich achos yn cael gwrandawiad teg; fodd bynnag, ni allwn roi cyngor cyfreithiol i chi.*

*Dyma restr o sefydliadau a all roi cyngor a chymorth am ddim i chi. Mae rhai yn cynnig cyngor cyfreithiol, gall rhai eich cynrychioli yn y gwrandawiad, a bydd rhai ond yn cynnig cymorth emosiynol neu ymarferol. Mae'r gwefannau yn egluro pa fath(au) o gymorth y gellir ei gael. Mae rhai yn cynnig gwasanaethau sydd ond ar gael mewn rhai rhannau o Gymru yn unig.*

*Ni allwn warantu y bydd y sefydliadau hyn yn gallu eich helpu, ac nid ydym yn gyfrifol am gynnwys nac ansawdd unrhyw gyngor a gewch. Efallai y bydd oedi wrth geisio cael apwyntiad ac fel arfer ni fydd y Tribiwnlys yn caniatáu oedi gydag achos i roi mwy o amser i chi gael cymorth.*

*Os ydych yn aelod o undeb lafur, efallai bydd yn eich helpu. Gall yswiriant tŷ, yswiriant car neu fath arall o yswiriant gynnwys yswiriant costau cyfreithiol, a all dalu am gostau achos tribiwnlys cyflogaeth. Mae rhai cynrychiolwyr yn cynnig gwasanaeth 'dim ennill, dim ffi'.*

## Arweiniad a gwybodaeth ddefnyddiol

| | |
|---|---|
| **Acas**<br>Cyngor rhad ac am ddim ar hawliau, rheolau ac ymarfer gorau yn y gweithle. | www.acas.org.uk<br>Ffôn: 0300 123 1100 |
| **Advice Now**<br>Yn darparu gwasanaeth cyfeirio i wybodaeth ddefnyddiol ar weithdrefnau'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth. | www.advicenow.org.uk |
| **Fideos gan BPP**<br>10 fideo, a gynhyrchwyd gan Ysgol y Gyfraith BPP, sy'n cynnwys gwybodaeth am beth sy'n digwydd mewn gwrandawiad a Gweithdrefnau'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth. | http://vimeo.com/user/71831050/folder/4038961 |
| Mae gwefan y **Tribiwnlysoedd Cyflogaeth** yn cynnwys gwybodaeth am weithdrefnau'r Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, dolenni i ffurflenni penodol a manylion cyswllt. | https://www.gov.uk/courts-tribunals/employment-tribunal |
| Arweiniad **Llywydd y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth** ar reoli achosion yn gyffredinol, gan gynnwys paratoi ar gyfer gwrandawiad, datgelu dogfennau a pharatoi a chyfnewid datganiadau tystion. | https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2013/08/presidential-guidance-general-case-management-20180122.pdf |
| **Streetlaw**<br>Myfyrwyr y gyfraith sy'n rhoi cyflwyniadau rhyngweithiol am ddim ar gamau ymarferol proses y Tribiwnlys Cyflogaeth. Cynhelir sesiynau ar-lein yn fisol rhwng mis Tachwedd a mis Gorffennaf. Ni roddir unrhyw gyngor. | ***Gellir gwneud cais i'r Tribiwnlys am fanylion dyddiadau'r sesiynau Streetlaw a sut i ymuno.*** |
| **Gwrandawiadau Fideo yn y Tribiwnlys Cyflogaeth**<br>Mae'r fideo byr hwn yn esbonio beth fydd yn digwydd mewn gwrandawiad fideo Tribiwnlys Cyflogaeth. | https://youtu.be/0ZwAiabxqvo<br>https://youtu.be/YGBFYt_K0jA (Iaith Arwyddion Prydain) |
| **WorkSMART**<br>Gwybodaeth am hawliau cyflogaeth ac adnoddau cyfrifo cyflog a thâl dileu swydd. | www.worksmart.org.uk/work-rights |

## Asiantaethau Cynghori

| | |
|---|---|
| **Cyngor ar Bopeth**<br>Gwasanaeth cyngor a gwaith achos, ar yr holl faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth a gwahaniaethu | Ffôn: 0800 702 2020 (Advicelink Cymru)<br>Ffôn: 0808 250 5720 (Llinell Gymorth Arbenigol ar Gyflogaeth a Gwahaniaethu) |

| | |
|---|---|
| | Ffôn: 0300 330 2165 (Llinell gymorth genedlaethol)<br>E-bost (De Cymru): discrimination.team@newportca.org.uk<br>E-bost (Gogledd Cymru): discrimination@flintshirecab.cabnet.org.uk<br>https://www.citizensadvice.org.uk/ |
| **Cynllun Cymorth i Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain y Tribiwnlys Cyflogaeth (ELIPS)**<br>Cyngor am ddim gan gyfreithwyr a bargyfreithwyr gwirfoddol mewn clinigau rhithwir bob pythefnos dros Zoom (ar ddydd Iau). | E-bost: elips@elaweb.org.uk<br>https://www.elaweb.org.uk/ |
| **Gwasanaeth Cyngor a Chymorth ar Gydraddoldeb**<br>Rhoddir cyngor ar achosion gwahaniaethu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 unig. | Ffôn: 0808 800 0082<br>www.equalityadvisoryservice.com |
| **Gwasanaeth Cyfraith Anableddau**<br>Llinell gymorth am ddim ar gyfer pobl anabl, eu teuluoedd, eu gofalwyr, a'u heiriolwyr ar faterion gwahaniaethu a chyflogaeth. | www.dls.org.uk<br>Ffôn: 0207 791 9800 |
| **Free Legal Answers**<br>Twrneiod gwirfoddol sy'n ateb cwestiynau penodol am faterion cyfreithiol. | https://freelegalanswers.org.uk/ |
| **Tîm Anghydfodau Taliadau Statudol CThEM**<br>Taliadau Tâl Mamolaeth Statudol/Tâl Mabwysiadu/Tâl Tadolaeth/Tâl Absenoldeb Rhiant a Rennir neu Dâl Salwch Statudol pan fydd eich cyflogwr wedi mynd yn fethdalwr neu'n gwrthod talu. | Ffôn: 0300 322 9422 |
| **Canolfannau Cyngor Law Works**<br>Dod o hyd i gyfeiriad y ganolfan gyngor sydd agosaf atoch chi. | www.lawworks.org.uk/legal-advice-individuals/find-legal-advice-clinic-near-you |
| **Maternity Action**<br>Gwybodaeth ar-lein am ddim a chyngor dros y ffôn ar hawliau a budd-daliadau mamolaeth a rhieni. | Ffôn: 0808 802 0029<br>https://maternityaction.org.uk/ |
| **Protect (Public Concern at Work gynt)**<br>Elusen chwythu'r chwiban | t: 020 3117 2520<br>https://protect-advice.org.uk/ |
| **Rights of Women**<br>Cyngor cyfreithiol i ferched sy'n dioddef aflonyddwch rhywiol yn y gwaith. | Ffôn: 020 7490 0152<br>http://rightsofwomen.org.uk |
| **Working Families**<br>Ar gyfer materion ynghylch gofal plant a hawliau teulu yn y gweithle. | Ffôn: 0300 012 0312<br>www.workingfamilies.org.uk |
| **The Speakeasy Law Centre (De Cymru)**<br>Gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n cynnig cyngor a chymorth cychwynnol. Dim cynrychiolaeth yn y tribiwnlys. | Ffôn: 0292 045 3111<br>E-bost: info@speakeasy.cymru<br>www.speakeasy.cymru/employment |
| **Clinig y Gyfraith LGBTQ+ Caerdydd**<br>Cyngor cyfreithiol am ddim ar gyfer unigolion LGBTQ+, wedi'i leoli yn y Speakeasy Law Centre | E-bost:<br>cardifflgbtqclinic@protonmail.com<br>www.cardifflgbtqlaw.co.uk |
| **Clinig y Gyfraith Prifysgol Abertawe**<br>Clinig cyngor rhad ac am ddim | Ffôn: 0179 229 5399<br>www.swansea.ac.uk/law/lawclinic |
| **Cymhorthfa Cyngor Cyfreithiol Prifysgol De Cymru**<br>Cyngor gan fyfyrwyr Ysgol y Gyfraith Prifysgol De Cymru drwy apwyntiad yn unig. Cyngor cyffredinol ar gyfraith cyflogaeth i weithwyr a chyflogwyr.<br>Dim cynrychiolaeth yn y tribiwnlys. Llenwch y ffurflen ymholi yn y ddolen os oes gennych fater cyfreithiol yr hoffech ei drafod gydag aelod o'r Gymhorthfa Cyngor Cyfreithiol. | Ffôn: 0144 366 8600<br>E-bost: uswlac@southwales.ac.uk<br>Ffurflen ymholi Cymhorthfa Cyngor Cyfreithiol Prifysgol De Cymru |
| **Clinig Cyfreithiol Gogledd a Chanolbarth Cymru** | Ffôn: 0140 776 2278 |

Gogledd Cymru

| | |
|---|---|
| Mae gweithwyr achos yn cynnig cyngor a chymorth arbenigol ar Gyfraith Cyflogaeth. | E-bost: lipsnorthwales@gmail.com |
| **Prifysgol y Gyfraith Gaer, Llinell Gyngor Hawliau Cyflogaeth (CHERAL)**<br>Cynigir sesiynau dros y ffôn rhwng 5-7 p.m. ar sail apwyntiad yn unig. Cynnig cyngor cychwynnol i unigolion/gweithwyr, ond nid cynrychiolaeth. | Ffôn: 0148 321 6044<br>E-bost: probono-chester@law.ac.uk<br>www.law.ac.uk/about/legal-advice-for-the-public/ |

## Asiantaethau Cymorth

| | |
|---|---|
| **BARKA**<br>Llinell Gymorth i fewnfudwyr o Ganol a Dwyrain Ewrop. Cyngor am gyflogaeth mewn Pwyleg, Rwseg a Rwmaneg. | Ffôn: 0800 171 2926 |
| **Gwasanaethau Tribiwnlys BPP (Bryste)**<br>Myfyrwyr Ysgol y Gyfraith BPP, sy'n gwirfoddoli yn mynychu gwrandawiadau gyda phartïon, gan gynnig cefnogaeth weinyddol, cymryd nodiadau a chynnig cefnogaeth emosiynol.. Dim cyngor cyfreithiol na chynrychiolaeth yn y tribiwnlys | E-bost:<br>tribunalservicesbristol@my.bpp.com |
| **Caethwasiaeth Fodern**<br>Llinell gymorth i adrodd am bryderon a cheisio gwybodaeth neu gyngor ynghylch llafur gorfodol, masnachu pobl a chaethiwed domestig. | Ffôn: 0800 012 1700<br>Ffôn: 0300 303 8151 (Byddin yr Iachawdwriaeth) |
| **Support Through Court (STC)**<br>Canolfan Gyfiawnder Sifil Caerdydd<br>Gwybodaeth ymarferol, cymorth a chefnogaeth emosiynol. Nid yw STC yn rhoi cyngor cyfreithiol | Ffôn: 0292 034 3685<br>E-bost: cardiff@supportthroughcourt.org<br>www.supportthroughcourt.org |

## Dulliau amgen ar gyfer datrys anghydfod

Mewn achosion priodol, gallwn gynnig dulliau amgen i helpu partïon ddatrys eu hanghydfod, a elwir yn gyfryngu barnwrol ac asesiadau barnwrol. Rhoddir esboniad manylach yma: https://www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2013/08/presidential-guidance-rule-3-adr-20180122.pdf

***Os oes arnoch angen y daflen hon mewn print bras, cysylltwch â Thribiwnlys Cyflogaeth Cymru ar 0292 067 8100 <Ffôn:+02920678100>.***